**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mawrth 2015**

**COFRESTR RISG STRATEGOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am gynlluniau i gyflwyno polisi strategol newydd ar reoli risgiau, a chofrestr risgiau corfforaethol.

## Cyflwyniad

2 Canfu adolygiad gan wasanaeth archwilio mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2014 o drefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod fod angen gwella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli risg corfforaethol er mwyn gwreiddio rheolaeth risg yn fwy sicr yn ei brosesau penderfynu.

3 Argymhellodd adroddiad yr archwiliad fod polisi newydd ar reoli risgiau a chofrestr risgiau yn cael eu datblygu i ganfod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i amcanion strategol yr Awdurdod.

## Gwybodaeth

4 Mae'r swyddogion wedi llunio polisi strategol newydd ar reoli risgiau, gyda gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig, ac maent yn parhau i gofnodi risgiau a rhoi sgoriau risg ar y gofrestr risgiau strategol newydd.

5 Mae natur y gofrestr risgiau strategol yn golygu nad priodol nac ymarferol fyddai cyflwyno eu gynnwys cyfan mewn cyfarfodydd agored o'r Awdurdod. Cynigir felly fod adroddiad i roi trosolwg cryno yn cael ei ddarparu i'r Panel Gweithredol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ond hefyd y bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael eu gwahodd i weld ac i drafod y cynnwys yn fanwl gyda'r swyddogion cyn y cyfarfodydd perthnasol.

## Argymhelliad

6 Bod yr aelodau'n nodi'r cynnydd a wneir wrth ddatblygu a gweithredu polisi strategol newydd ar reoli risgiau, ynghyd â gweithdrefnau, canllawiau a chofrestr risg â sgoriau.